Credyd Cynhwysol

Chwefror 2015

# Credyd Cynhwysol: cymorth os ydych yn ddibynnol ar gyffuriau a/neu alcohol

This leaflet is no longer current. You can find up to date information on GOV.UK

## Beth yw Credyd Cynhwysol?

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal newydd sy'n cefnogi pobl sydd ar incwm isel neu'n ddi-waith, ac yn helpu i sicrhau eich bod yn well eich byd mewn gwaith nag ar fudd-daliadau.

Bydd Credyd Cynhwysol yn rhoi'r gefnogaeth rydych ei angen i baratoi ar gyfer gwaith, symud i mewn i waith, neu ennill mwy. Yn gyfnewid am y cymorth hwn, eich cyfrifoldeb chi yw dod o hyd i waith neu gynyddu eich enillion.

Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno mewn camau. Mae ar gael i bobl sengl, cyplau a theuluoedd mewn rhai ardaloedd o'r wlad. Mae'n cael ei gyflwyno i hawlwyr sengl yn genedlaethol o fis Chwefror 2015.

Gweler y rhestr o ardaloedd canolfan gwaith ble y mae Credyd Cynhwysol ar gael a'r ardaloedd canolfan gwaith ac awdurdodau lleol a fydd yn dechrau cyflenwi Credyd Cynhwysol dros y misoedd nesaf.

Bydd eich gallu i wneud cais yn dibynnu ar ble rydych yn byw a'ch amgylchiadau personol. I weld os gallwch wneud cais cais, ac i gael y wybodaeth ddiweddaraf, ewch i www.gov.uk/universalcredit.

## Eich Ymrwymiad Hawlydd os ydych yn ddibynnol ar gyffuriau a/neu alcohol

Gall dibyniaeth ar gyffuriau a/neu alcohol weithredu fel rhwystr mawr i ddod o hyd i waith.

Os oes gennych ddibyniaeth ar gyffuriau a/neu alcohol, mae Credyd Cynhwysol yn caniatáu amser a lle i ymgysylltu â thriniaeth i gefnogi eich adferiad - rydym yn galw hyn yn driniaeth strwythuredig.

Pan fyddwch yn gwneud cais am Gredyd Cynhwysol bydd yn rhaid i chi dderbyn Ymrwymiad Hawlydd. Mae hwn yn gofnod o'r cyfrifoldebau rydych wedi eu derbyn yn gyfnewid am dderbyn Credyd Cynhwysol a'r canlyniadau o beidio â'u bodloni.

Os ydych yn ddibynnol ar gyffuriau a/neu alcohol a'ch bod yn penderfynu dweud wrth eich anogwr gwaith, byddant yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'ch cefnogi.

Ni fyddwch yn cael eich gorfodi i dderbyn triniaeth gan eich anogwr gwaith.

Os ydych yn derbyn triniaeth i gefnogi eich dibyniaeth ar gyffuriau a/neu alcohol, gall hyn gael ei adlewyrchu yn eich Ymrwymiad Hawlydd.

Gall hyn olygu nad oes gofyn i chi chwilio am neu baratoi at waith am hyd at chwe mis o ddechrau eich triniaeth, er mwyn i chi ganolbwyntio ar fynd i'r afael a'ch dibyniaeth ar gyffuriau a/neu alcohol.

Bydd angen i'ch anogwr gwaith i gadarnhau gyda'ch darparwr triniaeth eich bod yn mynd ati i gymryd rhan mewn triniaeth. Bydd hyn yn cael ei ddilyn i fyny bob mis i edrych nad yw'r sefyllfa wedi newid.

Os ydych yn dal i dderbyn triniaeth ar ôl chwech mis bydd angen i chi siarad â'ch anogwr gwaith am beth mae hyn yn ei olygu i chi.

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau mae'n bosibl y gall gweithgareddau triniaeth ddal i gael eu cymryd i ystyriaeth yn eich Ymrwymiad Hawlydd, ond mae hyn ond os yw eich anogwr gwaith yn cytuno mai dyma'r ffordd orau i helpu i gyflawni eich nodau cyflogaeth.

Os nad ydych mewn triniaeth neu os nad ydych yn dweud wrth eich anogwr gwaith eich bod eisoes yn cael triniaeth, bydd angen i chi chwilio am neu baratoi ar gyfer gwaith ar sail llawn amser.

This leaflet is no longer current.
You can find up to date information on GOV.UK

**Am fwy o wybodaeth ewch i [www.gov.uk/universalcredit](www.gov.uk/universalcredit)**
**neu'r [pecyn cymorth Credyd Cynhwysol.](pecyn cymorth Credyd Cynhwysol.)**